

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Tablau deddfwriaeth bwyd ac iechyd a lles anifeiliaid

Galwad am Dystiolaeth – Adolygiad o Iechyd a Lles Anifeiliaid a Diogelwch Bwyd

Tachwedd 2012

Deddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid

Maes pwnc a deddfwriaeth allweddol yr UE	Sylfaen y cytuniad yn TFEU	Disgrifiad o'r ddeddfwriaeth
Atal a rheoli clefydau		
Cyfarwyddeb Cyngor 82/894/EEC ar hysbysu am glefydau anifeiliaid o fewn y Gymuned	43	Mae'n sefydlu'r System Hysbysu am Glefydau Anifeiliaid sy'n mynnu bod Aelod-wladwriaeth yn hysbysu'r Comisiwn ac Aelod-wladwriaethau eraill pan geir achosion o glefyd ar ei thiriogaeth
Cyfarwyddeb Cyngor 88/407/EEC sy'n nodi'r gofynion iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i fewnforio a masnachu rhyng-Gymuned semen rhewedig anifeiliaid domestig o'r rhywogaeth fuchol	43	Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i fewnforio a masnachu semen buchol rhewedig a ddefnyddir ar gyfer ffrwythloni artiffisial
Cyfarwyddeb Cyngor 92/35/EEC sy'n nodi'r rheolau a'r mesurau ar gyfer mynd i'r afael â salwch ceffylau Affricanaidd	43	Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i achosion o salwch ceffylau Affricanaidd

Cyfarwyddeb Cyngor 92/66/EEC, 14 Gorffennaf 1992, sy'n cyflwyno mesurau'r Gymuned ar gyfer rheoli clefyd Newcastle	43	Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i achosion o glefyd Newcastle
Cyfarwyddeb Cyngor 92/119/EEC sy'n cyflwyno mesurau cyffredinol y Gymuned ar gyfer rheoli clefydau anifeiliaid penodol, a mesurau penodol yn ymwneud â chlefyd pothellog y moch	43	Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd anifeiliaid cyffredinol sy'n berthnasol i achosion o glefydau, a'r rheolau penodol sy'n berthnasol i achosion o glefyd pothellog y moch
Cyfarwyddeb Cyngor 2000/75/EC sy'n nodi darpariaethau penodol ar gyfer rheoli a dileu tafod glas	43 (Cyfarwyddeb Cyngor 92/119/EEC)	Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i achosion o dafod glas
Cyfarwyddeb Cyngor 2001/89/EC ar fesurau'r Gymuned ar gyfer rheoli clwy clasurol y moch	43	Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i achosion o glwy clasurol y moch
Rheoliad (CE) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n nodi'r rheolau ar gyfer atal, rheoli a dileu mathau penodol o eneffalopathi sbyngffurf trosglwyddadwy	168	Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd sy'n berthnasol i gynhyrchu anifeiliaid byw a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, a'u rhoi ar y farchnad, a'r mesurau diogelwch sydd i'w cymryd gan Aelod-wladwriaethau i atal a rheoli enseffalopathi sbyngffurf trosglwyddadwy fel BSE
Cyfarwyddeb Cyngor 2002/60/EC sy'n nodi darpariaethau penodol ar gyfer rheoli clwy Affricanaidd y moch	43 (Cyfarwyddeb Cyngor 92/119/EEC)	Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i achosion o glwy Affricanaidd y moch
Cyfarwyddeb Cyngor 2003/85/EC ar fesurau'r Gymuned ar gyfer rheoli clwy'r traed a'r genau	43	Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i achosion o glwy'r traed a'r genau

<p>Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynglŷn â'r mesurau rheoli swyddogol a weithredir i sicrhau y dilytir cydymffurfiad â chyfraith porthiant a bwyd, a rheolau iechyd a lles anifeiliaid</p>	<p>43, 114, 168(4)(b)</p>	<p>Mae'n sefydlu'r egwyddorion ar gyfer mesurau rheoli porthiant a bwyd swyddogol a weithredir gan Aelod-wladwriaethau er mwyn sicrhau bod rheolau swyddogol yn cael eu dilyn yn rheolaidd, ar sail risg ac yn ddigon aml.</p>
<p>Cyfarwyddeb Cyngor 2005/94/EC ar fesurau'r Gymuned ar gyfer rheoli ffliw adar</p>	<p>43</p>	<p>Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i achosion o ffliw adar</p>

Mewnforion a masnach ryng-UE mewn anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid		
Cyfarwyddeb Cyngor 64/432/EEC ar broblemau iechyd anifeiliaid sy'n effeithio ar fasnach ryng-Gymuned mewn anifeiliaid buchol a moch	43, 114	Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i fasnach ryng-UE mewn anifeiliaid buchol a moch
Cyfarwyddeb Cyngor 90/425/EEC sy'n ymwneud â'r archwiliadau milfeddygol a sootechnegol sy'n berthnasol i fasnach ryng-Gymuned mewn anifeiliaid byw a chynhyrchion penodol, gyda'r bwriad o gwblhau'r farchnad fewnol	43	Mae'n sefydlu'r fframwaith i gysoni'r gweithdrefnau ar gyfer archwiliadau Aelod-wladwriaethau o symudiadau anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid
Cyfarwyddeb Cyngor 90/426/EEC ar amodau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i symud a mewnforio ceffylau o drydydd gwledydd	43	Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i symud a mewnforio ceffylau o drydydd gwledydd
Cyfarwyddeb Cyngor 91/496/EEC sy'n nodi'r egwyddorion sy'n berthnasol i drefnu archwiliadau milfeddygol ar gyfer anifeiliaid sy'n dod i mewn i'r Gymuned o drydydd gwledydd	43	Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i fewnforio anifeiliaid o drydydd gwledydd a manau archwilio ar y ffin
Cyfarwyddeb Cyngor 92/65/EEC sy'n nodi'r gofynion iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i fasnachu a mewnforio i'r Gymuned anifeiliaid, semen, ofa ac embryonau nad ydynt yn ddarostyngedig i ofynion iechyd anifeiliaid a osodir yn rheolau penodol y Gymuned	43	Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd anifeiliaid ar gyfer gosod ar y farchnad anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid nad yw deddfwriaeth sy'n benodol i rywogaeth ¹ yn berthnasol iddynt

¹ Ymhlith pethau eraill, mae'r Gyfarwyddeb hon yn amlinellu'r amodau sy'n berthnasol i fasnach ryng-UE mewn gwenyn. Mae'n rhaid i fewnforigion gwenyn i'r UE hefyd gydymffurfio â Phenderfyniad Comisiwn 2003/881/EC sy'n ymwneud â'r amodau iechyd anifeiliaid ac ardystiad ar gyfer mewnforigion gwenyn o drydydd gwledydd penodol.

<p>Cyfarwyddeb Cyngor 92/118/EEC sy'n nodi'r gofynion iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd sy'n berthnasol i fasnachu a mewnfario i'r Gymuned cynhyrchion nad ydynt yn ddarostyngedig i'r gofynion a osodir yn rheolau penodol y Gymuned y cyfeirir atynt yn Atodiad A (I) Cyfarwyddeb 89/662/EEC ac, o ran pathogenau, Cyfarwyddeb 90/425/EEC</p>	<p>43</p>	<p>Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd anifeiliaid ar gyfer gosod ar y farchnad anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid nad yw deddfwriaeth sy'n benodol i rywogaeth yn berthnasol iddynt</p>
<p>Rheoliad (CE) Rhif 1760/00 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid buchol ac sy'n ymwneud â labelu cig eidion a chynhyrchion cig eidion</p>	<p>43, 168</p>	<p>Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i'r gallu i olrhain anifeiliaid buchol a system orfodol ar gyfer labelu cig eidion</p>
<p>Cyfarwyddeb Cyngor 2002/99/EC sy'n nodi'r rheolau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i gynhyrchu, prosesu, dosbarthu a chyflwyno cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'w bwyta gan bobl</p>	<p>43</p>	<p>Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i atal clefydau anifeiliaid rhag cael eu cyflwyno neu eu lledaenu o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a osodwyd ar y farchnad</p>
<p>Penderfyniad Comisiwn 2003/623/EC ynglŷn â datblygu system filfeddygol gyfrifiadurol integredig a adwaenir fel Traces</p>	<p>43 (Cyfarwyddeb Cyngor 90/425/EEC)</p>	<p>Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i wella'r dulliau o olrhain anifeiliaid a allai fod wedi bod yn agored i glefyd</p>
<p>Rheoliad (CE) Rhif 998/2003 ynglŷn â'r gofynion iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i symud anifeiliaid anwes anfasnachol</p>	<p>43, 168</p>	<p>Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i symud anifeiliaid anwes a darparu pasbortau anifeiliaid anwes</p>
<p>Rheoliad Cyngor (CE) Rhif 21/2004, 17 Rhagfyr 2003, sy'n sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid o deulu'r ddafad a'r afr</p>	<p>43</p>	<p>Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i olrhain defaid a geifr</p>
<p>Cyfarwyddeb Cyngor 2004/68/EC sy'n nodi'r rheolau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i fewnfario anifeiliaid carnosol byw penodol i'r Gymuned, a'u cludo trwy'r Gymuned</p>	<p>43</p>	<p>Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i fewnfario anifeiliaid carnosol byw i'r UE</p>

Cyfarwyddeb Cyngor 2006/88/EC sy'n ymwneud â'r gofynion iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i anifeiliaid dyframaeth a chynhyrchion a wnaed ohonynt, ac atal a rheoli clefydau penodol mewn anifeiliaid dyfrol	43	Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i anifeiliaid dyframaeth a chynhyrchion anifeiliaid dyframaeth
Cyfarwyddeb Cyngor 2008/71/EC ar adnabod a chofrestru moch	43	Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i olrhain moch
Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n nodi'r rheolau iechyd sy'n berthnasol i sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid na fwriadwyd iddynt gael eu bwyta gan bobl	168	Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd y cyhoedd sy'n berthnasol i gasglu, cludo, trin, trawsnewid, prosesu, storio, gosod ar y farchnad, dosbarthu, defnyddio neu waredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid
Lles anifeiliaid fferm		
Penderfyniad Cyngor 78/923/EEC ynglŷn â chasgliad y Confensiwn Ewropeaidd ar ddiogelu anifeiliaid a gedwir at ddibenion ffermio	43, 114	Mae'n cymeradwyo'r Confensiwn Ewropeaidd ar ddiogelu anifeiliaid a gedwir at ddibenion ffermio
Cyfarwyddeb Cyngor 93/119/EC ar ddiogelu anifeiliaid ar adeg eu lladd ²	43	Mae'n sefydlu'r rheolau lles anifeiliaid sy'n berthnasol i ladd anifeiliaid fferm a'r dulliau o ladd anifeiliaid at ddibenion rheoli clefydau
Cyfarwyddeb Cyngor 98/58/EC ynglŷn â diogelu anifeiliaid a gedwir at ddibenion ffermio	43	Mae'n sefydlu'r safonau lles anifeiliaid gofynnol cyffredin ar gyfer anifeiliaid a gedwir at ddibenion ffermio
Cyfarwyddeb Cyngor 1999/74/EC sy'n nodi'r safonau gofynnol ar gyfer diogelu ieir dodwy	43	Mae'n sefydlu'r safonau lles anifeiliaid gofynnol cyffredin ar gyfer ieir dodwy
Rheoliad Cyngor (CE) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth iddynt gael eu cludo	43	Mae'n sefydlu'r safonau lles anifeiliaid gofynnol cyffredin ar gyfer cludo anifeiliaid asgwrn cefn byw

² Disodlir y Gyfarwyddeb hon ar 1 Ionawr 2013 gan Reoliad Cyngor (CE) Rhif 1099/2009 ar ddiogelu anifeiliaid ar adeg eu lladd.

Cyfarwyddeb Cyngor 2007/43/EC sy'n nodi'r rheolau gofynnol ar gyfer diogelu ieir a gedwir i gynhyrchu cig	43	Mae'n sefydlu'r safonau lles anifeiliaid gofynnol cyffredin ar gyfer ieir a gedwir i gynhyrchu cig
Cyfarwyddeb Cyngor 2008/119/EC sy'n nodi'r safonau gofynnol ar gyfer diogelu lloi	43	Mae'n sefydlu'r safonau lles anifeiliaid gofynnol cyffredin ar gyfer lloi
Cyfarwyddeb Cyngor 2008/120/EC sy'n nodi'r safonau gofynnol ar gyfer diogelu moch	43	Mae'n sefydlu'r safonau lles anifeiliaid gofynnol cyffredin ar gyfer moch
Rheoliad Cyngor (CE) Rhif 834/2007 ynglŷn â chynhyrchu organig a labelu cynhyrchion organig (gyda rheolau gweithredu manwl yn Rheoliad Comisiwn (CE) Rhif 889/2008)	43	Mae'n sefydlu'r safonau lles anifeiliaid gofynnol cyffredin ar gyfer da byw (yn arbennig gwartheg, moch a dofednod) sy'n gysylltiedig â ffermio organig
Lles anifeiliaid eraill		
Cyfarwyddeb 1999/22/EC sy'n ymwneud â chadw anifeiliaid gwyllt mewn sŵau	192	Mae'n sefydlu'r mesurau sydd i'w mabwysiadu gan Aelod-wladwriaethau ar gyfer trwyddedu ac archwilio sŵau
Penderfyniad Cyngor 1999/575/EC ynglŷn â chasgliad y Gymuned o ran y Confensiwn Ewropeaidd ar ddiogelu anifeiliaid asgwrn cefn a ddefnyddir at ddibenion arbrofol a dibenion gwyddonol eraill	114, 218	Mae'n cymeradwyo'r Confensiwn Ewropeaidd ar ddiogelu anifeiliaid asgwrn cefn a ddefnyddir at ddibenion arbrofol a dibenion gwyddonol eraill
Cyfarwyddeb 2010/63/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddiogelu anifeiliaid a ddefnyddir at ddibenion gwyddonol	114	Mae'n sefydlu'r mesurau lles anifeiliaid sy'n berthnasol i anifeiliaid a ddefnyddir at ddibenion gwyddonol

Meddyginiaethau milfeddygol, bwydydd anifeiliaid meddyginiaethol a gweddillion meddyginiaeth filfeddygol mewn da byw

Cyfarwyddeb Cyngor 90/167/EEC sy'n nodi'r amodau sy'n berthnasol i baratoi, gosod ar y farchnad a defnyddio bwydydd anifeiliaid meddyginiaethol yn y Gymuned	43	Mae'n sefydlu'r rheolau iechyd y cyhoedd sy'n berthnasol i baratoi, gosod ar y farchnad a defnyddio bwydydd anifeiliaid meddyginiaethol
Rheoliad Cyngor (EEC) Rhif 2377/90 sy'n nodi gweithdrefn y Gymuned ar gyfer sefydlu terfynau gweddillion uchaf o ran cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol mewn bwydydd anifeiliaid sy'n dod o anifeiliaid	43	Mae'n sefydlu'r weithdrefn ar gyfer pennu terfynau gweddillion uchaf o ran cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol mewn bwydydd anifeiliaid sy'n dod o anifeiliaid er mwyn hwyluso symudiad rhydd bwydydd anifeiliaid a chynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol
Cyfarwyddeb Cyngor 96/23/EC ynglŷn â mesurau i fonitro sylweddau penodol a gweddillion ohonynt mewn anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid	43	Mae'n sefydlu'r rheolau i Aelod-wladwriaethau fonitro sylweddau anawdurdodedig a gweddillion ohonynt mewn anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid
Cyfarwyddeb 2001/82/EC ynglŷn â chod y gymuned o ran cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol	114	Mae'n sefydlu'r rheolau i ddiogelu iechyd y cyhoedd a hwyluso masnach ryng-UE mewn cynhyrchion meddyginiaethol trwy system o awdurdodiadau marchnata
Rheoliad (CE) Rhif 726/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n nodi gweithdrefnau'r Gymuned ar gyfer awdurdodi a goruchwylio cynhyrchion meddyginiaethol at ddefnydd dynol a milfeddygol a sefydlu Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd	114, 168	Mae'n sefydlu'r rheolau i ddiogelu iechyd y cyhoedd a hwyluso masnach ryng-UE mewn cynhyrchion meddyginiaethol
Rheoliad Comisiwn (CE) Rhif 1950/2006 sy'n nodi rhestr o sylweddau sy'n hanfodol ar gyfer trin ceffylau	114 (Cyfarwyddeb 2001/82/EC)	Mae'n nodi rhestr o sylweddau hanfodol y gellir eu rhoi i geffylau y bwriedir eu lladd i'w bwyta gan bobl

Deddfwriaeth cyfraith bwyd

Maes pwnc a Deddfwriaeth allweddol yr UE	Sylfaen y cytuniad yn TFEU	Disgrifiad o'r ddeddfwriaeth
Diogelwch bwyd a phorthiant		
Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n nodi egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau ynglŷn â materion diogelwch bwyd	43, 114, 207, 168(4)(b)	Mae'n sefydlu egwyddorion cyffredinol cyfraith bwyd (gan gynnwys olrhain ac adrodd am ddigwyddiadau), yr egwyddor rheoli o'r pridd i'r plât, ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop.
<p>Hylendid Bwyd</p> <p>Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar hylendid bwydydd</p> <p>Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n nodi rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid</p> <p>Rheoliad (CE) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n nodi rheolau penodol ynglŷn â threfnu mesurau rheoli swyddogol ar gyfer cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid y bwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl</p>	<p>114, 168(4)(b)</p> <p>168(4)(b)</p> <p>168(4)(b)</p>	Mae'n sefydlu rheolau hylendid cynhwysfawr ac integredig ar gyfer pob math o fwyd o'r fferm i'r adeg gwerthu i'r defnyddiwr.
Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynglŷn â'r mesurau rheoli swyddogol a weithredir i sicrhau y dilysir cydymffurfiad â chyfraith porthiant a bwyd, a rheolau iechyd a lles anifeiliaid	43, 114, 168(4)(b)	Mae'n sefydlu'r egwyddorion ar gyfer mesurau rheoli porthiant a bwyd swyddogol a weithredir gan Aelod-wladwriaethau er mwyn sicrhau bod rheolau swyddogol yn cael eu dilyn yn rheolaidd, ar sail risg ac yn ddigon aml.

Rheoliad (CE) Rhif 767/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynglŷn â marchnata a defnyddio porthiant	43, 168(4)(b)	Mae'n nodi'r rheolau ar gyfer gosod ar y farchnad a defnyddio porthiant ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu anifeiliaid anwes, gan ystyried diogelwch porthiant , diogelu iechyd y cyhoedd, gwybodaeth i ddefnyddwyr a'r farchnad fewnol.
Rheoliad (CE) Rhif 183/2005 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n nodi'r gofynion ar gyfer hylendid porthiant	43(2), 168(4)(b)	Mae'n sefydlu polisi hylendid cynhwysfawr ar gyfer busnesau porthiant ac er mwyn gweithredu arferion hylendid da ar bob lefel o gynhyrchu a defnyddio porthiant
Rheoliad (CE) Rhif 1829/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynglŷn â bwyd a phorthiant a addaswyd yn enetig	43, 114, 168(4)(b)	Mae'n darparu ar gyfer y fframwaith cyffredinol ynglŷn â rheoleiddio bwyd a phorthiant a addaswyd yn enetig yn yr UE
Rheoliad Cyngor (EEC) Rhif 315/93 sy'n nodi gweithdrefnau'r Gymuned ar gyfer halogion mewn bwyd	114	Mae'n sefydlu rheolau ac egwyddorion ynglŷn â thrin halogion mewn bwyd ledled yr UE ac yn nodi'r fframwaith ar gyfer sefydlu lefelau uchaf halogion penodol ledled yr UE er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.
Rheoliad (CE) Rhif 1333/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynglŷn ag ychwanegion bwyd	114	Mae'n sefydlu'r rheolau ar gyfer defnyddio ychwanegion bwyd mewn bwyd a'r amodau ar gyfer eu defnyddio.
Rheoliad (CE) Rhif 1334/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynglŷn â chyflasynnau a chynhwysion bwyd penodol â nodweddion cyflasynnau sydd i'w defnyddio mewn bwydydd ac ar fwydydd	114	Mae'n sefydlu'r rheolau cyffredinol ar gyfer defnyddio cyflasynnau mewn bwydydd ac ar fwydydd, ac ar gyfer gwerthuso ac awdurdodi mathau penodol o gyflasynnau.
Rheoliad (CE) Rhif 2065/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynglŷn â chyflasynnau mwg a ddefnyddir neu y bwriedir eu defnyddio mewn bwydydd neu ar fwydydd	114	Mae'n sefydlu'r rheolau cyffredinol ar gyfer defnyddio cyflasynnau mwg, ac ar gyfer eu gwerthuso a'u hawdurdodi.
Rheoliad (CE) Rhif 1332/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynglŷn ag ensymau	114	Mae'n sefydlu'r rheolau cyffredinol ar gyfer defnyddio ensymau bwyd, ac ar gyfer eu gwerthuso a'u

bwyd		hawdurdodi.
Cyfarwyddeb 2009/32/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ynglŷn â chyd-ddynesu cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau sy'n ymwneud â thoddyddion echdynnu a ddefnyddir wrth gynhyrchu bwydydd a chynhwysion bwyd	114	Mae'n nodi'r rheolau ar gyfer defnyddio toddyddion echdynnu wrth gynhyrchu bwydydd.
Rheoliad (CE) Rhif 1935/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynglŷn â deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd	114	Mae'n nodi'r gofynion cyffredinol ar gyfer pob math o ddeunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd (e.e. deunyddiau pecynnu; offer, cyllyll a ffyrc a dysglau; peiriannau prosesu; cynwysyddion bwyd), ac ar gyfer datblygu mesurau rheoli penodol (e.e. terfynau mudo) ac awdurdodiadau ar gyfer is-setiau o'r rhain.
Cyfarwyddeb 1999/2/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ynglŷn â chyd-ddynesu cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau sy'n ymwneud â bwydydd a chynhwysion bwyd a driniwyd ag ymbelydredd ïoneiddio	114	Mae'n sefydlu'r rheolau ar gyfer gweithgynhyrchu, marchnata a mewnfario bwydydd a chynhwysion bwyd a driniwyd ag ymbelydredd ïoneiddio.
Rheoliad (CE) Rhif 258/97 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynglŷn â bwydydd newydd a chynhwysion bwyd newydd	114	Mae'n nodi'r rheolau ar gyfer asesu risg ac awdurdodi bwydydd newydd.
Cyfarwyddeb Cyngor 89/108/EEC ynglŷn â chyd-ddynesu cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau sy'n ymwneud â bwydydd wedi'u rhewi'n gyflym y bwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl	114	Mae'n nodi'r rheolau ar gyfer rhewi'n gyflym, pecynnu, labelu ac archwilio bwydydd sydd wedi'u rhewi'n gyflym.
Labelu bwyd		
Rheoliad (UE) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynglŷn â darparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr.	114	Mae rheolau penodol yn ymwneud â diogelwch bwyd (e.e. labelu alergenau bwyd a darpariaethau ynglŷn â dyddiadau defnyddio erbyn) wedi'u cynnwys yn y rheolau cyffredinol ar ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr.

Rheoliad (CE) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid buchol ac ynglŷn â labelu cig eidion a chynhyrchion cig eidion	43, 168	Mae'n sefydlu'r darpariaethau labelu sy'n berthnasol i gynhyrchion penodol, megis cig eidion a chig llo.
Safonau cyfansoddiadol, labelu a meini prawf cysylltiedig		
Cyfarwyddeb Cyngor 98/83/EC ynglŷn ag ansawdd dŵr y bwriedir iddo gael ei yfed gan bobl	192	Mae'n sefydlu'r rheolau sy'n berthnasol i ansawdd dŵr potel sydd i'w yfed gan bobl er mwyn diogelu iechyd pobl
Cyfarwyddeb 1999/4/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n ymwneud ag echdyniadau coffi ac echdyniadau sicori	114	Mae'n sefydlu'r rheolau sy'n berthnasol i ddiffinio a labelu cynhyrchion coffi toddadwy
Cyfarwyddeb 2000/36/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n ymwneud â chynhyrchion coco a siocled y bwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl	114	Mae'n sefydlu'r rheolau sy'n berthnasol i ddiffinio a labelu cynhyrchion coco a siocled
Rheoliad Cyngor (CE) Rhif 104/2000 ynglŷn â chyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaeth	31, 42, 43	Mae'n sefydlu'r rheolau sy'n berthnasol i farchnata cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaeth
Cyfarwyddeb Cyngor 2001/110/EC ynglŷn â mêl	43	Mae'n sefydlu'r rheolau sy'n berthnasol i ddiffinio a labelu mêl
Cyfarwyddeb Cyngor 2001/111/EC ynglŷn â siwgrau penodol y bwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl	43	Mae'n sefydlu'r rheolau sy'n berthnasol i ddiffinio a labelu siwgrau penodol
Cyfarwyddeb Cyngor 2001/112/EC, 20 Rhagfyr 2011, ynglŷn â sudd ffrwythau a chynhyrchion tebyg penodol y bwriedir iddynt gael eu hyfed gan bobl	43	Mae'n sefydlu'r rheolau sy'n berthnasol i ddiffinio a labelu sudd ffrwythau a neithdar ffrwythau
Cyfarwyddeb Cyngor 2001/113/EC ynglŷn â jam ffrwythau, jeli a marmalêd, a phiwrî cnau castan wedi'i felysu y bwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl	43	Mae'n sefydlu'r rheolau sy'n berthnasol i ddiffinio a labelu jamiau a marmalêd
Cyfarwyddeb Cyngor 2001/114/EC ynglŷn â mathau penodol o laeth cadw	43	Mae'n sefydlu'r rheolau sy'n berthnasol i ddiffinio a labelu

sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl sych, y bwriedir iddynt gael eu hyfed gan bobl		cynhyrchion llaeth sych
Erthyglau 114 i 116 Rheoliad Cyngor (CE) Rhif 1234/2007 sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth ar gyfer marchnadoedd amaethyddol a darpariaeth arbennig ar gyfer cynhyrchion amaethyddol penodol	42, 43	Mae'n sefydlu'r rheolau sy'n berthnasol i ddiffinio a labelu llaeth a chynhyrchion llaeth (Erthygl 114), brasterau ac olewau taenadwy (Erthygl 115), a chynhyrchion y sectorau wyau a chig dofednod (Erthygl 116)
Cyfarwydddeb 2009/54 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynglŷn â datblygu dyfroedd mwynol naturiol a'u marchnata	114	Mae'n sefydlu'r rheolau sy'n berthnasol i farchnata dyfroedd mwynol naturiol yn yr UE